



## Cynllun Lles BGC – Blaenoriaethau Drafft

Ym mis Mehefin 2017 cynhaliodd BGC Conwy a Sir Ddinbych 4 **Digwyddiad Dewch â'ch Syniad** a phob un yn seiliedig ar 4 elfen yr egwyddor cynaliadwyedd: diwylliant, cymdeithas, yr amgylchedd a'r economi.



Roedd y digwyddiadau yn darparu cyfle i fudd-ddeiliaid ddatblygu cynigion a allai gael eu hystyried gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn eu Cynllun Lles.

Yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Gorffennaf, trafododd aelodau'r 13 thema gyffredin a ddaeth o'r digwyddiadau i fudd-ddeiliaid. Ar gyfer pob un o'r themâu cyffredin, gwnaeth Aelodau asesu lefel y risg a beth fyddai'n digwydd pe na bai'r flaenoriaeth yn cael sylw yn y tymor hir; ystyried sut gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus weithio gyda'r gymuned i wneud gwahaniaeth gwirioneddol; a'r posibilrwydd i bartneriaid gydweithredu ar y flaenoriaeth.

O ganlyniad i'r trafodaethau, dewiswyd y 6 blaenoriaeth a ganlyn. Bydd rhain yn ffurfio'r Cynllun Lles drafft a fydd yn mynd i ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni:

1. **1000 Diwrnod Cyntaf Bywyd** – sicrhau bod 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn yn ddiogel, iach gyda'r cyfle i ddatblygu i'w llawn botensial.
2. **Cynllunio cymunedol a chreu canolfannau cymunedol** – edrych ar faethu mwy o weithgarwch cymunedol lleol drwy ddod â phreswylwyr a sefydliadau/gwasanaethau allweddol ynghyd i wella ansawdd bywyd a chreu cymunedau gwydn.
3. **Iechyd meddwl a lles** – sicrhau bod pawb o bob oed yn profi iechyd meddwl a lles da gyda chanolbwynt penodol ar ymyrraeth gynnar ac atal
4. **Paratoi ar gyfer annibyniaeth a lles pobl hŷn yn y dyfodol** – canolbwyntio ar adeiladu gwydnwch gyda phobl sy'n dod at y cam hwn o fywyd.
5. **Gwydnwch amgylcheddol** – canolbwyntio ar ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
6. **Meithrin hyder a dyheadau mewn pobl ifanc** – edrych ar ffyrdd y gallwn gefnogi pobl ifanc hyderus, uchelgeisiol a chytbwys a deall y rhywstrau maen nhw'n eu hwynebu.

## Asesiad Lles Lleol

Mae'r Asesiad Lles wedi'i gymeradwyo bellach ac mae ar gael ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn -

[www.conwyanddenbighshirepsb.org.uk/wellbeing-assessment](http://www.conwyanddenbighshirepsb.org.uk/wellbeing-assessment)

Mae'r asesiad hwn yn ceisio dangos cryfderau ac asedau ei bobl a'i gymunedau, wrth ddisgrifio'r heriau a'r cyfleoedd a wynebir nawr ac yn y dyfodol.

## Amserlen Lles BGC – Dyddiadau Allweddol



**Medi  
2017**

Gofyn am gymeradwyaeth y BGC ar gyfer y Cynllun Lles Drafft ar gyfer yr ymgynghoriad



**Hydref  
2017**

Dechrau'r ymgynghoriad 12 wythnos gyda'r dinasyddion, partneriaid sector gwirfoddol, preifat a chyhoeddus – eich cyfle i roi eich barn am y cynllun drafft



**Ionawr  
2018**

Dadansoddi adborth a pharatoi fersiwn derfynol y cynllun lles drafft



**Mawrth  
2018**

Gofyn am gymeradwyaeth gan aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a byrddau gweithredol aelodau statudol y Bwrdd ar gyfer cyhoeddi'r cynllun lles



**Ebrill  
2018**

Cyhoeddi'r cynllun lles a lle mae'r gwaith caled i gyd yn dechrau ar gyflawni'r amcanion lleol!